# Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol

# Diweddariad Rhanddeiliaid

# Mawrth 2018

### Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (CMCC): Diweddariad Mawrth 2018

**Datblygu CMCC drafft**

- Ymgynghoriad cyhoeddus 16 wythnos wedi'i lansio ar-lein ar 7fed Rhagfyr a'i ddosbarthu i randdeiliaid.

- Llythyrau at awdurdodau cynllunio lleol ac ymgyngoreion statudol yn gofyn am adborth wedi'u hanfon.

- Ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hystyried.

- Tua 30 o ymatebion wedi'u derbyn erbyn 28ain Mawrth 2018 h.y. un diwrnod cyn dyddiad cau'r ymgynghoriad.

- Trafodaeth Senedd Cynulliad Cymru ar CMCC wedi'i chynnal ar 9fed Ionawr 2018.

- Gweithdy pwyllgor ar y Cynllun Morol drafft wedi'i gynnal ar 14eg Mawrth 2018.

**Ymgysylltu**

- Chwe digwyddiad cyhoeddus/sesiwn galw heibio wedi'u cynnal ledled Cymru a Chynhadledd genedlaethol wedi'i chynnal.

- Cyfarfodydd polisi dwyochrog ar y polisi cynllunio drafft ac adborth yr ymgynghoriad yn parhau / cael eu cynllunio.

- Cyfarfodydd dwyochrog i randdeiliaid wedi'u cynnal / cynnig.

- Cyswllt â Gweriniaeth Iwerddon ac Ynys Manaw'n parhau yn ogystal ag ymgysylltu â Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

- Swyddogion wedi bod yng nghynhadledd gloi SIMCelt 28/29 Tachwedd.

- Cyfarfod o'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid wedi'i gynnal ar 24ain Hydref. Cyfarfod nesaf 3ydd Ebrill 2018.

- Cyfarfod gyda'r Sefydliad Rheoli Morol wedi'i gynnal 21ain Chwefror 2018; cyfarfodydd rheolaidd yn parhau.

- Sesiwn 'gêm' cynllunio morol wedi'i gynnal â Phrifysgol Lerpwl.

**Tystiolaeth**

- Wedi parhau i ddatblygu Monitro ac Adrodd yn ôl.
- Profi Fersiwn 3 y Porthol yn parhau.
- Wedi gweithio ag ymgynghorydd - Iwan Ball – i ddadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar Gynllunio Morol is-genedlaethol.
- Wedi sefydlu prosiect Polisi Morol Integredig Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop 'Rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol morol' ac wedi cynnal cyfarfod o grŵp cynghori prosiect y Gronfa.
- Wedi cynnal caffael ar gyfer contractwr i gyflwyno Cam 1 prosiect Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop – wedi'i ddyfarnu i ABPMer.
- Wedi parhau i ddatblygu map ffordd tystiolaeth cynllunio morol.
- Cytundeb pum mlynedd wedi cael ei roi yn ei le ar gyfer cyfres ddata GIS Atlas Arfordirol y DU ar gyfer Hwylio Hamdden yr RYA. Data'n cael eu hychwanegu at y porthol.

**Gweithredu**

- Datblygu ffrwd waith i weithredu'r cynllun.
- Wedi cytuno ar ddogfen ffyrdd o weithio Llywodraeth Cymru a'r Sefydliad Rheoli Morol a'i mabwysiadu.
- Yn sefydlu Grŵp Awdurdodau Cyhoeddus i gefnogi gweithredu.

**<u>Gwahardd Microbelenni</u>**

**<u>Penawdau</u>**

Mae llawer o sylw wedi bod ar y cyfryngau i effeithiau niweidiol microblastigau yn yr amgylchedd morol. Mae microbelenni plastig yn elfen gyffredin mewn llawer o gynhyrchion golchi dwylo, glanhau wyneb, past dannedd a chynhyrchion cosmetig eraill. Maent yn cael eu golchi i lawr y draen ac yn rhy fach i gael eu hidlo'n llwyr yn y systemau trin carthffosiaeth ac yn y diwedd maent yn cyrraedd y môr. Rydym ni, ynghyd â gweddill y DU, yn cymryd camau cadarnhaol i leihau faint o blastig sy'n cyrraedd ein moroedd.

Dangosodd ein hymgynghoriad cyhoeddus diweddar ynghylch pryd daw'r gwaharddiad microbelenni i rym a sut bydd yn cael ei orfodi yng Nghymru gefnogaeth eang i'r gwaharddiad hwn. Mae'r Crynodeb o Ymatebion ar gael ar ein gwefan https://beta.gov.wales/banning-manufacture-and-sale-cosmetics-and-personal-care-products-containing-plastic-microbeads.

Rydym yn symud ymlaen gyda deddfwriaeth i gyflwyno gwaharddiad llawn ar ficrobelenni yng Nghymru, o ran gweithgynhyrchu a gwerth cynhyrchion ar yr un pryd, erbyn **30 Mehefin 2018.** Mae'r Rheoliadau drafft ar gael i'r cyhoedd gyflwyno sylwadau arnynt a gellir eu gweld ar y dudalen Forol a Physgodfeydd ar y we http://gov.wales/topics/environmentcountryside/marineandfisheries/?lang=en.

Pan fydd y gwaharddiad yn ei le, bydd yn drosedd cyfreithiol i unrhyw un weithgynhyrchu, gwerthu neu gynnig cyflenwi unrhyw gynhyrchion golchi cosmetig neu ofal personol sy'n cynnwys microbelenni plastig yng Nghymru.

Rydym wedi bod yn gweithio â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddatblygu cynigion er mwyn i wasanaethau Safonau Masnach Awdurdodau Lleol allu gorfodi'r gwaharddiad. Bydd swyddogion Safonau Masnach yn gallu gorfodi amrywiaeth o gosbau sifil, gan gynnwys cosbau ariannol amrywiol, hysbysiadau cydymffurfio a hysbysiadau atal i annog cydymffurfiaeth.

Ein dealltwriaeth ni yw nad yw busnesau Cymru'n debygol o gael eu heffeithio gan y gwaharddiad gweithgynhyrchu am nad oes gennym unrhyw weithgynhyrchwyr yng Nghymru sy'n defnyddio microbelenni plastig. Hefyd, mae'r diwydiant cosmetig eisoes wedi dechrau dod â'r defnydd o ficrobelenni i ben ac ychydig o weithgynhyrchwyr yn y DU sy'n dal i'w defnyddio, os o gwbl. Felly, mae'r cyflenwad o gynhyrchion sy'n cynnwys microbelenni'n lleihau.

O ystyried y ffactorau hyn, rydym yn credu y bydd adwerthwyr yn barod am y gwaharddiad hwn ac mai ychydig iawn o broblemau methu cydymffurfio ddaw i'r amlwg.

## Newidiadau i drwyddedu morol a bywyd gwyllt yn rhanbarth y môr yng Nghymru

### Penawdau

Mae Llywodraeth y DU wedi gwneud ymrwymiad i ddatganoli rhagor o bwerau i Weinidogion Cymru yn dilyn argymhellion Adroddiad Silk II Comisiwn Silk ar Bwerau Deddfwriaethol i Gryfhau Cymru.

Ar 30 Tachwedd 2017, trosglwyddodd y cyfrifoldeb am drwyddedu rhywogaethau a warchodir yn rhanbarth y môr yng Nghymru i Weinidogion Cymru o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017. Cytunodd y Sefydliad Rheoli Morol i weinyddu ceisiadau trwyddedau rhywogaethau yn rhanbarth y môr yng Nghymru ar ran Gweinidogion Cymru tan 31ain Mawrth 2018, pryd bydd y cyfrifoldeb am weinyddu ceisiadau'n trosglwyddo i Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC), a fydd yn gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru.

O 1af Ebrill 2018 ymlaen, Gweinidogion Cymru fydd yr awdurdod trwyddedu morol yn rhanbarth y môr yng Nghymru o dan Ddeddf Cymru 2017, pryd bydd gweinyddu ceisiadau trwyddedau morol yn trosglwyddo o'r Sefydliad Rheoli Morol i CNC, a fydd yn gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru.

**Beth mae hyn yn ei olygu i chi?**
Os ydych chi wedi cyflwyno cais i'r Sefydliad Rheoli Morol cyn 1 Ebrill 2018 am drwydded forol a/neu fywyd gwyllt, bydd y penderfyniad yn parhau i gael ei wneud gan y Sefydliad. Ar ôl

penderfynu ynghylch y cais am drwydded, os oes unrhyw ofynion ar ôl dyfarnu trwydded, fel monitro neu gadw at amodau, bydd y rhain yn cael eu hystyried gan CNC.

Os ydych chi'n gwneud unrhyw weithgareddau yn rhanbarth y môr yng Nghymru, edrychwch ar Orchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) 2011 am fanylion y gweithgareddau sy'n esempt o'r gofyniad am drwydded forol yng Nghymru.

Os byddwch yn gwneud cais am drwydded forol neu drwydded bywyd gwyllt yn rhanbarth y môr yng Nghymru ar ôl 1 Ebrill 2018, rhaid cyflwyno'r cais i CNC.

Manylion cyswllt CNC:

**Trwyddedu Morol**:
E-bost - marinelicensing@naturalresourceswales.gov.uk
Rhif ffôn: Llinell Ymholiadau Cyffredinol ar 0300 065 3000.
Gwefan:
https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/marine-licensing/marine-licences/?lang=en

**Trwyddedu Rhywogaethau**:
E-bost: trwyddedrhywogaeth@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk (Cymraeg)
specieslicence@naturalresourceswales.gov.uk (Saesneg)
Rhif ffôn: 0300 065 4974 neu 0300 065 4921
Gwefan:
https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/protected-species-licensing/?lang=en

## Newidiadau i Reoliadau Harbyrau ar gyfer harbyrau yng Nghymru

O dan Ddeddf Cymru, o 1 Ebrill 2018 ymlaen, bydd Gweinidogion Cymru hefyd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb llawn am y polisi datblygu porthladdoedd ar gyfer harbyrau yng Nghymru, ar wahân i borthladdoedd ymddiriedolaeth mawr. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn ymestyn i gynnwys ceisiadau ar gyfer Gorchmynion Adolygu a Grymuso Harbyrau, cydsyniad gweithred breifat ('Morlys'), ceisiadau am bwerau i wneud cyfarwyddebau harbwr a chadarnhau is-ddeddfau. Er mwyn helpu i sicrhau pontio llyfn i'r trefniadau newydd, mae'r Adran ar gyfer Trafnidiaeth, y Sefydliad Rheoli Morol a Llywodraeth Cymru wedi cytuno mai'r Adran ar gyfer Trafnidiaeth a'r Sefydliad Rheoli Morol fydd yn gyfrifol am geisiadau penodol a dderbynnir cyn 1 Ebrill 2018.
Bydd yr holl geisiadau a gaiff eu derbyn ar ôl 1 Ebrill 2018 yn cael eu trin gan Lywodraeth Cymru.

## Fframwaith Rheoli a Chynllun Gweithredu Drafft y Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig ar gyfer Cymru, 2018 – 2023

### Cefndir

Mae Fframwaith Rheoli a Chynllun Gweithredu'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig ar gyfer Cymru wedi cael ei ddatblygu gan y Grŵp Llywio sy'n Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig er mwyn gwneud y canlynol:

- helpu i symud tuag at ddull unedig a chyson o reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig;
- pennu'r camau gweithredu blaenoriaeth ar gyfer rheoli'r rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig i gyflawni fel y cytunwyd gan y Grŵp Llywio sy'n Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig;
- gwneud defnydd gwell o fonitro ac adolygu'r gwaith wedi'i gwblhau fel sail i reoli yn y dyfodol; ac
- annog awdurdodau rheoli i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael iddynt.

Mae'r Grŵp Llywio wedi cytuno mai pum mlynedd fydd oes yr argraffiad cyntaf o'r Fframwaith. Bydd hyn yn galluogi adolygu'r Fframwaith ac asesu'r canlyniadau cyn y rownd nesaf o ofynion adrodd yn ôl i Gomisiwn OSPAR ac o dan y Ddeddf Mynediad Morol ac Arfordirol (2009).

**Fframwaith Rheoli'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig ar gyfer Cymru**

Mae'r Fframwaith yn cynnwys pump o adrannau a thri atodiad.

Mae adran 1 yn darparu trosolwg o'r Fframwaith a sut mae'n cyfrannu at ddeddfwriaeth fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015), strategaethau eraill fel y Cynllun Gweithredu Adfer Natur ar gyfer Cymru, a rhwymedigaethau Comisiwn OSPAR.

Mae adran 2 yn datgan y weledigaeth a'r amcanion ar gyfer rheoli'r rhwydwaith fel y cytunwyd yng nghylch gwaith y Grŵp Llywio, sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Hefyd mae'r adran hon yn cysylltu â chyfarwyddyd Comisiwn OSPAR ar reoli'r rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Mae'n cyflwyno pum egwyddor rheoli y mae'r Grŵp Llywio wedi cytuno y dylid eu defnyddio i arwain cyflawni'r weledigaeth a'r amcanion:

1. **Cynllunio Strategol**: Mae'r rheolaeth yn cael ei llywio gan brosesau cynllunio strategol ar lefel sector a Chymru gyfan. Mae'n cefnogi defnydd cynaliadwy o'r rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig mewn ffyrdd sy'n cynnal, gwella a chyfrannu at ecosystemau morol cadarn, lles a chyflawni rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol.

2. **Rheoleiddio, caniatáu datblygiadau a phrosesau asesu:** Cyflwynir prosesau rheoleiddiol a phenderfyniadau am ganiatâd yn gyson ac yn gymesur ar draws y rhwydwaith, ac maent yn ystyried ac yn cefnogi'n rhagweithiol y gwaith o gynnal neu wella (os yw hynny'n bosib/briodol) cyflwr y safleoedd a'r nodweddion perthnasol ar draws y rhwydwaith.

3. **Cyngor a chyfarwyddyd rheoli:** Cefnogir penderfyniadau a gweithrediadau rheoli gan gyngor a chyfarwyddyd clir a chyson ar Ardaloedd Morol Gwarchodedig, gan gynnwys eu hamcanion cadwraeth.

4. **Deall cyflwr safleoedd a'u nodweddion, a'r pwysau sydd arnynt a'r bygythiadau iddynt, fel sail i reoli:** yn sail i'r rheoli mae asesu ac adrodd yn ôl ffurfiol ar gyflwr y nodweddion, y safleoedd a'r rhwydwaith a'r pwysau cysylltiedig. Yn sail i asesu ac adrodd yn ôl mae rhaglen o dystiolaeth wedi'i blaenoriaethu (gan gynnwys monitro) sy'n gwella ein dealltwriaeth o'r berthynas rhwng pwysau a bygythiadau a chyflwr.

5. **Rheolaeth ehangach:** mae gweithgareddau rheoli ar draws y rhwydwaith yn cael eu blaenoriaethu tuag at y rhai sydd â photensial am y gwelliant mwyaf o ran cyflwr a diogelwch rheolaeth. Rhoddir sylw i heriau rheoli cyffredin yn gasgliadol ar draws y rhwydwaith

Mae adran 3 yn rhoi trosolwg o'r rhwydwaith o ardaloedd morol gwarchodedig yng Nghymru ac yn eu gosod yng nghyd-destun y rhwydwaith ehangach yn nyfroedd y DU.

Mae adran 4 yn datgan sut mae Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn cael eu rheoli yng Nghymru. Mae'n cynnwys cynllunio strategol, caniatáu rheoleiddiol a phrosesau asesu, darparu cyngor a chyfarwyddyd rheoli, pwysigrwydd deall cyflwr safleoedd a'u nodweddion, a gweithgareddau rheoli ehangach.

Mae adran 5 yn darparu gwybodaeth am sut i wella rheolaeth a chyflwr y rhwydwaith, yn cadarnhau'r pum egwyddor rheoli a hefyd yn rhoi gwybodaeth am drefniadau llywodraethu ar gyfer y Fframwaith a'r Cynllun Gweithredu.

Mae Atodiad 1 yn rhestr o rywogaethau a chynefinoedd a warchodir ym mhob Ardal Forol Warchodedig yng Nghymru.

Mae Atodiad 2 yn nodi dolenni at ragor o wybodaeth a chyfarwyddyd ar gyfer awdurdodau rheoli.

Mae Atodiad 3 yn dabl o awdurdodau rheoli ynghyd â'u cyfrifoldebau statudol a'r ddeddfwriaeth a'r confensiynau sy'n berthnasol iddynt.

**<u>Cynllun Gweithredu ar gyfer Rheoli'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig</u>**

Mae'r Cynllun Gweithredu, a fydd yn cael ei ddiweddaru'n flynyddol, yn cadarnhau'r weledigaeth a'r pum egwyddor rheoli ar gyfer rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Mae'r cynllun yn nodi'r camau gweithredu allweddol sydd wedi'u datgan gan y Grŵp Llywio ar gyfer Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig i gynnal a gwella'r rheolaeth a chyflwr y rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig ledled Cymru yn 2018-19.

**Y camau nesaf**

Bydd y Grŵp Llywio'n cyfarfod eto'n fuan i drafod defnyddio'r meini prawf blaenoriaethu gyda'r camau gweithredu sydd wedi'u datgan yn y Cynllun Gweithredu. Mae'r Grŵp yn gobeithio bod mewn sefyllfa i roi diweddariad pellach yng nghyfarfod Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol fis Mehefin. Yn y cyfamser, os oes gennych chi unrhyw sylwadau ar strwythur y Fframwaith drafft a'r pum egwyddor rheoli, cysylltwch â Richard Lowcock James ar 03000 253241 / richard.lowcockjames@gov.wales.

**<u>Cwblhau Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru</u>**

Ym mis Tachwedd 2016, cyhoeddodd y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur ei asesiad o sut mae'r Ardaloedd Morol Gwarchodedig presennol yng Nghymru'n cyfrannu tuag at sefydlu rhwydwaith ecolegol gydlynol a reolir yn dda o Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn y DU. Daeth yr asesiad i'r casgliad bod Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru'n gwneud cyfraniad sylweddol. Mae'n nodi bod ein rhwydwaith wedi'i gysylltu'n dda gyda mwyafrif y cynefinoedd a'r rhywogaethau'n cael eu cynrychioli ac, os yw hynny'n bosib, yn cael eu hefelychu i ddarparu cadernid yn y rhwydwaith.

Fodd bynnag, canfuwyd diffyg bychan o ran cydlyniant ecolegol yn yr asesiad ar gyfer moroedd Cymru. Mae hyn yn golygu bod rhaid i ni weithredu i roi sylw i'r diffyg o ran cyflawni ein rhwymedigaethau cenedlaethol a rhyngwladol. Rydym yn parhau wedi ymrwymo i weithio

mewn partneriaeth â Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol i roi sylw i'r diffyg, ac rydym yn disgwyl y bydd hyn yn cwblhau'r rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru. Rydym yn rhagweld y bydd y gwaith yn dechrau yn yr hydref eleni. Bydd rhagor o fanylion, gan gynnwys amserlen prosiect, yn cael eu rhannu gyda'r Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol yn ystod y misoedd sydd i ddod.

Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid drwy Grŵp Gorchwyl a Gorffen newydd i Gwblhau Rhwydwaith yr Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Hyd yma mae'r aelodau o Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol sydd wedi'u rhestru isod wedi mynegi diddordeb mewn bod yn aelod o'r grŵp gorchwyl a gorffen newydd. Os oes aelodau o'r Grŵp sydd heb eu rhestru isod yn dymuno cyflwyno eu henwau neu os ydych yn meddwl bod sefydliadau y tu allan i'r Grŵp â diddordeb efallai yn y gwaith hwn, cofiwch roi gwybod i ni drwy anfon e-bost i Sharon.Davies23@gov.wales erbyn **1 Mehefin 2018**.

Aelodau Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cwblhau Rhwydwaith yr Ardaloedd Morol Gwarchodedig

Jim Evans, Cymdeithas Pysgotwyr Cymru

Scott Fryer, Ymddiriedolaethau Natur Cymru

Gill Bell, Y Gymdeithas Cadwraeth Forol

Emily Williams, Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar

Rosie Kelly, Stad y Goron

Lucy Taylor, Partneriaeth Aber Afon Hafren

Emma Barton, Y Gymdeithas Iotio Frenhinol

Alan Morgan, British Marine

Peter Barham, Peter Barham Environment Cyf.

Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur a CNC

## Rhaglen Ymchwil i Forfilod Wedi Tirio

Mae'r Rhaglen Ymchwil i Forfilod Wedi Tirio'n rhaglen ledled y DU a sefydlwyd yn 1990. Mae'n darparu dull cydlynol o oruchwylio morfilod wedi tirio ac yn ymchwilio i achosion marwolaeth morfilod wedi tirio ac, yn achlysurol, rhywogaethau eraill agored i niwed fel crwbanod y môr a heulforgwn yn y DU. Mae gwybodaeth am y tirio ar gael i'r gweinyddiaethau datganoledig yn chwarterol.

Mae Llywodraeth Cymru'n cyllido'r rhaglen ar y cyd â Defra a Llywodraeth yr Alban. Yn ddiweddar rydym wedi cytuno i sefydlu contract newydd a pharhau i gyllido am ddwy flynedd a hanner arall, tan fis Hydref 2020. Mae'r contract yn caniatáu cynnal ugain post-mortem y flwyddyn ar forfilod wedi tirio yng Nghymru. Mae'r dystiolaeth sy'n cael ei chasglu gan y Rhaglen yn rhoi gwybodaeth i ni am lefel y rhyngweithio rhwng morfilod a gweithgarwch dyn yn nyfroedd Cymru, ac mae'n cael ei defnyddio at ddibenion rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig.

**ADRODDIAD CANGEN GWEITHREDIADAU PYSGODFEYDD A MOROL**

**HYDREF 2017 – RHAGFYR 2017**

---

## AGOR / CAU / TRWYDDEDAU AC AWDURDODI

**Andy Bradick**

- Agorodd Pysgodfa Cregyn Bylchog Cymru ar 1af Tachwedd
  - 28 Awdurdodiad wedi'u rhoi i bysgota o fewn y terfyn 6nm.
- Agorodd pysgodfeydd cocos Gogledd Cymru yn Nhraeth Melynog, Traeth Lafan a Thraeth Coch ar 1af Medi
  - 113 Trwydded wedi'u rhoi.
- Pysgodfa Cregyn Gleision Bae ac Aber Conwy
  - 7 Awdurdodiad wedi'u rhoi 10fed Medi.
- Pysgodfa Llusgrwydo â Chwch Grawn Cregyn Gleision Trwyn Whiteford
  - Yr un Awdurdodiad wedi dod i ben ar 30ain Tachwedd.
- Pysgodfa Gocos y Tair Afon, y cau dros dro wedi cael ei ymestyn tan 31ain Rhagfyr 2018, yn amodol ar asesu nifer y cocos yn barhaus, i benderfynu a oes digon o stoc i agor y bysgodfa.
- Caewyd y bysgodfa cyllyll môr yn Llanfairfechan a Phenmaenmawr rhwng 18 Awst 2017 ac 1 Ionawr 2018.
  - Gwnaed y penderfyniad hwn yng ngoleuni gwybodaeth newydd gan Brifysgol Bangor sy'n awgrymu bod risg i'r stoc ddymchwel o ganlyniad i'r lefelau cynaeafu presennol ac er mwyn comisiynu, cwblhau ac adolygu arolwg priodol.
  - Bydd y cau'n cael ei ymestyn tan 31ain Rhag 2018 er mwyn cwblhau'r gwaith yma.

## PRIF BYSGODFEYDD

### 1. Cocos — Barrie John / Greta Hughes

Agorodd pysgodfeydd cocos Gogledd Cymru ar 1 Medi gyda Chyfanswm y Ddalfa a Ganiateir yn Nhraeth Melynog (283 tunnell), Traeth Lafan (195 tunnell) a Thraeth Coch (59 tunnell) wedi'i bennu. Roedd y gweithgarwch yn troi o amgylch Traeth Melynog gyda 6 chasglwr cocos yn casglu'n achlysurol ar gyfer y farchnad fyw. Mae oddeutu 8 tunnell wedi'u tynnu ac ni fu unrhyw broblemau gydag isafswm y maint glanio neu drwyddedau.

Mae pysgodfa'r Tair Afon wedi parhau ar gau drwy gydol y cyfnod. Er bod gweithgarwch anghyfreithlon wedi digwydd yn ystod y cyfnod, mae ein gwaith gorfodi uchel ei broffil wedi llwyddo i atal sawl ymgais gan botsiars. Mae sawl trosedd wedi'u canfod ac mae ffeiliau achos yn cael eu paratoi yn awr gan y swyddogion dan sylw. Mae adroddiadau am weithgarwch yn symud tua'r gorllewin (Saundersfoot) wedi cael sylw'n llwyddiannus hefyd.

### 2. Draenogiaid — Barrie John

Er bod y mesurau a gyflwynwyd gan Reoliadau 2016 ar gyfer Cyfanswm y Ddalfa a Ganiateir a Chwotâu wedi arwain at lanio dwyseddau is o Ddraenogiaid, cafwyd nifer o adroddiadau cadarnhaol gan ddiwydiant am gyflwr y stociau a nifer y pysgod ifanc a welwyd.

3. **Cramenogion** **Greta Hughes**

Daethpwyd â photiau cimychiaid i’r lan yn gyffredinol, neu eu symud yn nes i mewn at y lan, ond roedd pysgodfa crancod ar y môr ym Mae Ceredigion. Lleihaodd y dalfeydd o gimychiaid a chrancod yn raddol wrth i’r cyfnod fynd yn ei flaen gydag effaith isel yn arwain at brisiau uchel. Roedd pysgodfa corgimychiaid Bae Ceredigion yn dda iawn i ddechrau ond dirywiodd o fis Tachwedd ymlaen, oherwydd gwyntoedd dwyreiniol yn lleihau symudiad y corgimychiaid efallai. Yn gyffredinol, roedd y dalfeydd yn gyson â’r blynyddoedd blaenorol.

4. **Cregyn Bylchog** **Barrie John / Greta Hughes**

Bu gweithgarwch cyfyngedig o ran cregyn bylchog ym Mae Ceredigion yn ystod dau fis cyntaf y tymor. Fodd bynnag, mae’r rhai sydd wedi pysgota wedi adrodd yn ôl am y pysgota’n welliant ar y flwyddyn flaenorol. Hyd yma, dim ond 3-4 cwch lleol a’r un nifer o gychod yn ymweld sydd wedi pysgota yn yr Ardal Cadwraeth Arbennig. Nid oes adroddiadau am ragor o gychod yn cyrraedd o’r De wedi’u cyflwyno eto.

Mae pysgodfeydd Gogledd Llŷn a Gogledd Ynys Môn wedi’u cyfyngu’n bennaf i gychod lleol.

5. **Cregyn y Frenhines** **Greta Hughes**

Cafwyd dalfeydd boddhaol wrth dreillio am gregyn y frenhines oddi ar arfordir Gogledd Ynys Môn ar ddechrau’r cyfnod ond nid ydym yn gwybod a fydd y gweithgarwch hwn yn parhau ar ôl diwedd tymor presennol cregyn y brenin. Glaniwyd rhai cregyn y frenhines wedi’u treillio yn Aberdyfi gan gychod yn gweithio oddeutu 20 milltir fôr o’r lan.

6. **Cregyn Moch** **Barrie John**

Mae’r bysgodfa Cregyn Moch yn parhau i fod yn un o’n pysgodfeydd mwyaf cynhyrchiol. Mae o leiaf 20% o fflyd Cymru’n weithredol yn y bysgodfa hon yn awr. Mae’r tymor pysgota cynhyrchiol a welwyd yn gynharach yn y flwyddyn ym Mae Ceredigion wedi lleihau yn awr ac mae nifer o’r cychod a ddefnyddiodd y bysgodfa hon wedi mynd yn ôl i’r de i ardaloedd mwy traddodiadol. Mae’n ymddangos bod cefnogaeth barhaus gan y mwyafrif yn y diwydiant i fesurau diogelwch rheoleiddiol cynyddol i sicrhau cynaliadwyedd y bysgodfa.

**ASEDAU AC ADNODDAU**

7. **Cychod Goruchwylio Pysgodfeydd** **Mark Pole / Paul Rowley**

Mae criwiau cwch wedi cynorthwyo gyda gweithrediadau gorfodi ar y lan ac wedi goruchwylio'r môr o dan gyfarwyddyd yr Ystafell Gweithrediadau.

Mae'r adnoddau wedi bod yn brin oherwydd y rhaglen newid cychod, ond mae gwaith ar y cyd wedi'i wneud yn ddiweddar gyda Gogledd Iwerddon i oruchwylio Bae Ceredigion. Roedd y gwaith hwn yn llwyddiannus ac mae rhagor o oruchwylio ar y cyd wedi'i drefnu.

8. **Caffael Cychod** **Craig Jones**

Mae'r rhaglen gaffael ar gyfer tri chwch newydd wedi'i chwblhau yn awr a llofnodwyd contractau gan yr adeiladwyr llongau llwyddiannus ac Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar 16eg Chwefror 2017. Mae'r rhaglen yn y cam adeiladu cyntaf yn awr. Mae'r cyfnod adeiladu'n wahanol ar gyfer y cychod ond maent wedi'u cychwyn ar yr un pryd. Mae'r amseroedd cyflwyno disgwyliedig ar gyfer y tri fel a ganlyn:

- Cwch RIB caban ymateb cyflym (MST Cyf.): Chwefror 2018 (cyflwynwyd)
- Cwch Goruchwylio Pysgodfeydd y De (un corff) (Mainstay Marine Cyf.): Medi 2018 Awst 2018
- Cwch Goruchwylio Pysgodfeydd y Gogledd (catamaran) (Mainstay Marine Cyf.): Medi 2018 Awst 2018

9. **Adolygu Iechyd a Diogelwch** **Tim Croucher**

Mae'r tîm Gweithrediadau'n gweithredu'r cyntaf o'r asesiadau risg terfynol sy'n canolbwyntio ar waith rhynglanwol. Mae system waith ddiogel wedi cael ei llunio i roi cyfarwyddyd syml i staff ar sut i weithio'n ddiogel yn y maes hwn. Bydd yr asesiadau risg sy'n weddill a'r systemau gweithio diogel yn cael eu gweithredu gan ddefnyddio dull fesul cam yn ystod y 6 mis nesaf. Mae'r asesiadau risg yn cael eu defnyddio yn awr i ddarparu adolygiad cynhwysfawr o offer gwarchodol personol yn y gangen.

**RHEOLI A CHYDYMFFURFIO**

10. **Cydymffurfio â Rheoliadau Rheoli** **Barrie John**

Mae gwaith yn parhau i sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau rheoli'r UE. Mae'r holl gychod ac asiantau sy'n gorfod cyflwyno data electronig wedi cael eu symud i hwb Pysgod newydd y DU yn awr. Mae'r swyddogion wedi gweithio gyda diwydiant i sicrhau pontio llyfn a hefyd i gynorthwyo os oes problemau wedi codi. Mae'r Ystafell Gweithrediadau'n monitro symudiad pob cwch ym Mharth Cymru gyda thechnoleg VMS a hefyd cychod cregyn bylchog gan ddefnyddio technoleg symudol. Mae'r data hyn yn cael eu croeswirio hefyd yn erbyn ymdrechion pysgota er mwyn cynnal darlun cynhwysfawr o'r gweithgarwch yn ein dyfroedd.

Mynegwyd pryderon am gychod yn tangofnodi pŵer eu hinjan. Gan weithio ochr yn ochr â chydweithwyr ym Marine Scotland, rydym wedi dechrau gwaith ar ganfod unrhyw broblemau

o’r fath yn fflyd Cymru a bydd camau priodol yn cael eu cymryd i gywiro unrhyw anomaleddau a ganfyddir.

### 11. Cychod Tramor yn Glanio — Barrie John

Mae wedi bod yn gyfnod cymharol dawel o ran glanio gan gychod OMS. Y rheswm pennaf am hyn yw cwota digonol o rywogaethau allweddol yn y Môr Celtaidd. Mae craffu manwl yn digwydd ar VMS ac E-gofnodion ar gyfer y rhai sydd wedi aros, oherwydd mae’r dystiolaeth yn awgrymu bod cychod yn cam-gofnodi’r ardal ddal ar gyfer rhai rhywogaethau cwota. Mae ymchwiliad i ddau gwch o’r fath wedi dechrau.

Dim glanio gan gwch Eingl Sbaenaidd i’w gofnodi – ond y rheswm am hyn yw bod y fflyd yn symud o lannau Grand Sol i bysgota mwy proffidiol ger Porcupine Banks, Gorllewin Iwerddon.

### 12. Archwiliadau Prynwyr Pysgod — Barrie John

Mae symud at yr Hwb Electronig newydd ar gyfer data gwerthiant wedi arwain at ychydig o oedi gyda chyflwyno data. Roedd hyn i’w ddisgwyl felly mae Swyddogion Gorfodi Morol wedi ymweld â phrynwyr a’u cefnogi wrth iddynt symud i’r Hwb newydd ac at weithdrefnau adrodd yn ôl newydd. Hefyd mae prynwyr eraill sydd â dyletswydd statudol i gyflwyno data oddi mewn i derfynau derbyniol yn cael eu cefnogi i sicrhau Rheolaeth fanwl gywir ar Gwotâu.

### 13. Trwyddedu Morol — Phil Marshall

Mae tywydd drwg ac oriau byrrach yn ystod y dydd wedi lleihau’r gwaith trwyddedu morol sy’n cael ei wneud ar yr arfordir. O ganlyniad, mae nifer yr archwiliadau wedi lleihau. Mae’r gwaith swyddfa wedi datblygu’n dda, sy’n cynnwys cwblhau ffeil ymchwiliadau.

### 14. Cronfa’r Môr a Physgodfeydd Ewrop

Mae gwaith ar droed i ddefnyddio’r dyraniad o £2,300,000 o Gronfa’r Môr a Physgodfeydd Ewrop ar gyfer Cymru i reoli a gorfodi. Cyflwynwyd y cais yn ffurfiol ym mis Ionawr ac rydym yn disgwyl derbyn ymateb cychwynnol yn fuan. Mae cwmpas y prosiect hwn yn cynnwys agweddau fel datblygu systemau canfod cychod ar gyfer pob cwch sy’n gweithredu yn nyfroedd Cymru yn ogystal â systemau cofnodi dalfeydd gwell ar gyfer y fflyd dan 10m. Bydd yr wybodaeth hon yn sicrhau model rheoli seiliedig ar risg sy’n llawer gwell i reoli pysgodfeydd morol yng Nghymru, yn ogystal â chryfhau safle Cymru mewn perthynas â’i rhwymedigaeth statudol ar gyfer y gallu i olrhain pysgod a chynhyrchion dyframaethu.

## GORFODI UNIONGYRCHOL

### 15. Ymchwiliadau ac Erlyniadau — Barrie John

Mae gan y tîm Gweithrediadau 37 o ymchwiliadau byw ar droed yn awr ar gyfer troseddau cysylltiedig â physgodfeydd. Mae’r troseddau sy’n destun ymchwiliad yn cynnwys amrywiaeth o wahanol weithgareddau, fel casglu pysgod cregyn rhynglanwol yn anghyfreithlon, peidio â

chyflwyno data statudol, glanio pysgod rhy fach, pysgota anghyfreithlon mewn ardaloedd wedi cau a thorri rheolau cysylltiedig â Monitro Cychod.

Cynhaliwyd gwrandawiadau cyntaf 5 achos ym mis Rhagfyr a chawsant eu gohirio i gyd. Mae dyddiadau ar gyfer y rhain, a 5 achos pellach, wedi'u pennu ar gyfer mis Ionawr (gweler 21. Erlyniadau Diweddar) a mis Mawrth. Mae gan y Cyngor Cyffredinol 15 achos pellach, neu byddant yn ei gyrraedd yn fuan, ac rydym yn gobeithio derbyn y gymeradwyaeth angenrheidiol er mwyn bwrw ymlaen i erlyn yn fuan.

Mae'r gwaith yn parhau ar y symud at gyflwyno cosbau Gweinyddol Penodol a'r gobaith yw lansio ymgynghoriad ar hyn yn y dyfodol agos.

**RHEOLI FFLYD**

16. **Trwyddedu Cychod** **Barrie John**

Mae trwyddedu Diwydiant Pysgota Cymru'n parhau'n flaenoriaeth allweddol. Ar hyn o bryd rydym yn trwyddedu 29 >10m a 385 <10m o gychod. Rydym wedi parhau i weld oedi gyda chofrestru sydd, yn ei dro, yn effeithio ar ein gallu i drwyddedu cychod ar amser. Rydym yn parhau i gefnogi ein diwydiant drwy sicrhau bod y rhai sydd wedi'u heffeithio'n gallu gweithio tra mae'r oedi hwn yn cael ei ddatrys.

Gwnaed 104 o drafodiadau trwyddedu yn ystod y chwarter diwethaf, gydag 11 yn ddadgyfuno trwyddedau.

17. **Rheoli Cwotâu** **Mike Jones**

Roedd y tîm Cwotâu yn brysur iawn yn chwarter olaf 2017 gan lwyddo i sicrhau penfreision, lledod a morgathod ar gyfer fflyd dan 10m Cymru. Cafwyd cwota ychwanegol o gronfeydd y Sefydliad Rheoli Morol a DAERA, Sefydliad Cynhyrchwyr Pysgod y De Orllewin, Sefydliad Cynhyrchwyr Dwyrain Lloegr a Sefydliad Cynhyrchwyr Môr y Gogledd, a Sefydliad Cynhyrchwyr Pysgod Gogledd Iwerddon. Yn gyffredinol, roedd gan gychod dan 10m Cymru fynediad i gyfyngiadau cwota misol oedd yn fwy na'r rhai yn Lloegr. Felly roedd modd i ni orffen y flwyddyn heb fod angen cau unrhyw bysgodfa i'n fflyd. Gwnaed y defnydd mwyaf o'r morgathod gyda mwy nag 80% o'n dyraniad wedi'i gymryd. Roedd yr holl rywogaethau eraill yn ddiogel oddi mewn i'w terfynau. Mae canlyniadau Cyngor mis Rhagfyr i gyd yn gadarnhaol bron a gallwn ddisgwyl dyraniadau cwota cynyddol ar gyfer ein fflyd dan 10m yn 2018.

18. **Draenogiaid Môr**

Gwrthodwyd y cynnig gwreiddiol yn y Cyngor ym mis Rhagfyr gan y Cyngor Rhyngwladol Archwilio'r Môr a'r Comisiwn Ewropeaidd am wahardd pob dalfa o ddraenogiaid môr yn dilyn trafodaethau anodd iawn i gytuno ar gyfyngiadau dal blynyddol ar gyfer pysgodfeydd bachyn a lein a lwfans is-ddalfa na ellir ei hosgoi ar gyfer rhwydi drysu ar gyfer 2018. Er y bydd y rhain yn is na'r rhai a bennwyd y llynedd, gwnaed y cyfyngiadau y cytunwyd arnynt er gwaethaf gwrthwynebiad chwyrn a'r cyngor gwyddonol bod y stoc o ddraenogiaid yn nyfroedd ehangach Ewrop yn parhau i fod mewn sefyllfa ddifrifol iawn.

Bydd y cyfyngiadau dal canlynol ar gyfer nifer y Draenogiaid Môr sy'n cael eu dal gan gychod masnachol heb allu osgoi hynny yn berthnasol yn 2018:

- Defnyddio treillrwyd ddyfnforol – uchafswm o 100 cilogram y mis ac 1% o bwysau cyfanswm y dalfeydd o organebau morol ar y bwrdd mewn un diwrnod sengl.
- Defnyddio rhwydi sân – uchafswm o 180 cilogram y mis ac 1% o bwysau cyfanswm y dalfeydd o organebau morol ar y bwrdd mewn un diwrnod sengl.
- Defnyddio bachyn a lein – uchafswm o 5 tunnell y cwch y flwyddyn.
- Defnyddio rhwydi drysu sefydlog - uchafswm o 1200 kg y cwch y flwyddyn.

Ym mhob pysgodfa hamdden, gan gynnwys pysgota o'r lan, dim ond pysgota dal a rhyddhau a ganiateir ar gyfer Draenogiaid Môr. Fodd bynnag, yn y Cyngor ym mis Rhagfyr, gwnaeth y Comisiwn Ewropeaidd ymgymeriad penodol ar gyfer cwblhau asesiad o'r stoc o Ddraenogiaid Môr erbyn diwedd mis Mawrth eleni. Pan fydd canlyniad yr ailwerthusiad yn hysbys, bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi diweddariad ar ei gwefan.

19. **Gwrachod y Môr** **Mike Jones**

Mae Marine Harvest wedi dynodi eu bod yn ceisio osgoi unrhyw ddibyniaeth ar dynnu gwrachod y môr o'r gwyllt i gyflenwi'r fasnach ffermydd eogiaid. Bydd staff gweithredol yn cyfarfod Marine Harvest ym mis Mawrth i drafod eu cynlluniau busnes ar gyfer y dyfodol yng Nghymru.

20. **Llamhidyddion Wedi Tirio** **Greta Hughes**

Ymddangosodd erthygl a llun yn cyd-fynd am lamhidydd wedi'i anafu'n ddrwg wedi golchi i'r lan ger Rhiwledyn yn y Daily Post, 29ain Rhagfyr 2017. Awgrymodd pysgotwr / perchennog siop bysgota leol y gallai rhwydi pysgota wedi'u gadael fod wedi achosi ei farwolaeth ac arweiniodd ei sylwadau at sawl camsyniad yn yr erthygl o ran rhwydi a chyfrifoldebau gorfodi ar hyd arfordir Gogledd Cymru. Aeth Swyddogion Gorfodi Morol i'r siop a darparu pecyn gwybodaeth. Ymddangosodd llun o lamhidydd arall ddaeth i'r lan yn Nefyn yn ystod yr un cyfnod yn yr erthygl hefyd.



**Llamhidydd bach ger Rhiwledyn**



**Llamhidydd yn Nefyn**

Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraethau'r DU a'r Alban yn cyllido'r Rhaglen Ymchwil i Forfilod Wedi Tirio sy'n darparu, os yw hynny'n bosib, tystiolaeth am farwolaethau

llamhidyddion, dolffiniaid a morfilod ar draethau arfordir Cymru. Ni ellir sefydlu achos marwolaeth y llamhidyddion penodol hyn ond mae’r Rhaglen yn dangos bod marwolaethau llamhidyddion yn gallu cael eu hachosi gan amrywiaeth o resymau, gan gynnwys ymosodiad gan ddolffin trwyn potel a morlo llwyd, llwgu/hypothermia newydd-anedig, taro gan gwch yn ogystal ag is-ddalfa pysgota. Ni chredir fod pysgodfeydd Cymru’n fygythiad i forfilod oherwydd eu lefelau isel o weithgarwch rhwydo. Ni fu llawer o weithgarwch rhwydo dros y Nadolig a’r Flwyddyn Newydd oherwydd tywydd gwael ac mae’n hynod annhebygol bod rhwydi wedi cyfrannu at farwolaethau’r llamhidyddion uchod.

21. **Erlyniadau** **Barrie John**

Ar 29ain Ionawr 2018, clywyd pum ffeil Ymchwiliad, oedd wedi derbyn awdurdodiad i fwrw ymlaen i lys, yn Llys Ynadon Hwlffordd. Rhestrir crynodeb byr o’r pump achos a’u canlyniadau isod:

1. Providing Star – PFV 4975 a 4977. Y ddau achos yn ymwneud â dal cregyn bylchog yn anghyfreithlon ym Mae Ceredigion yn ystod mis Rhagfyr 2015 gyda’r troseddau’n ymwneud â physgota mewn ardal gaeedig, methu cydymffurfio â gofynion tracio cychod a materion data dalfa Statudol. Plediodd y Perchnogion a’r Meistr yn euog o bob cyhuddiad. Mae’r ffioedd cyfun ar gyfer y ddau achos fel a ganlyn:

Dirwy o £40,000 i’r perchnogion, a hefyd costau o £3000 a £340 o ffi cefnogi dioddefwr

Dirwy o £4000 i’r Meistr, a chostau o £457, a £90 o ffi cefnogi dioddefwr

**Cyfanswm £47,887**

2. Anne Mary B – PFV4988. Yr achos yn ymwneud â physgota’n anghyfreithlon am Gregyn Moch o fewn y cyfyngiad 6 milltir ar Arfordir Gogledd Cymru. Plediodd y Perchnogion a’r Meistr yn euog a dyfarnwyd y cosbau canlynol:

Dirwy o £9000 i’r perchnogion, a hefyd costau o £1000, a £170 o ffi cefnogi dioddefwr

Dirwy o £2000 i’r Meistr, a chostau o £360, a £100 o ffi cefnogi dioddefwr

**Cyfanswm £12,630**

3. Michael Hough – PFV5137. Yr achos yn ymwneud ag aildroseddu mewn perthynas â chasglu cocos yn anghyfreithlon yn Ardal y Tair Afon ac atal Swyddog Gorfodi Morol rhag cyflawni ei ddyletswyddau. Pledio’n Euog.

Dirwy o £2500, a hefyd costau o £2000, a £170 o ffi cefnogi dioddefwr

**Cyfanswm £4,670**

4. Brian Arthur – PFV5079. Yr achos yn ymwneud â chadw cimychiaid oedd yn llai na’r maint glanio gofynnol. Plediodd y ddau barti’n euog.

Dirwy o £400 i’r perchennog, a hefyd costau o £600, a £40 o ffi cefnogi dioddefwr

Dirwy o £400 i’r Meistr, a hefyd costau o £600, a £40 o ffi cefnogi dioddefwr

**Cyfanswm £2,080**

Mae dau ddyddiad pellach wedi’u pennu ar gyfer Llys Ynadon Hwlffordd ym mis Mawrth ar gyfer gwrandawiad cyntaf 10 achos pellach.

**Atodiad 1.** Dangosyddion Perfformiad Gweithrediadau Pysgodfeydd ar gyfer Hydref 2017 – Ionawr 2018

| Maes Gwaith | Gweithgarwch | Hydref 2017 | Tachwedd 2017 | Rhagfyr 2017 | Ionawr 2018 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gorfodi deddfwriaeth Pysgodfeydd Morol** | Goruchwylio ar y môr | 1 | 1 | 2 | 0 |
| | Archwiliadau ar y môr | 0 | 3 | 2 | 0 |
| | Archwiliadau yn y porthladd | 44 | 56 | 19 | 19 |
| | Porthladdoedd yr ymwelwyd â hwy | 92 | 117 | 91 | 72 |
| | Archwiliadau RBS | 14 | 15 | 16 | 5 |
| **Ymchwil i Droseddau Pysgodfeydd Morol** | Torri rheolau a ganfuwyd | 2 | 3 | 2 | 0 |
| | Ymchwiliadau newydd | 1 | 2 | 1 | 0 |
| | Ymchwiliadau byw | 36 | 37 | 38 | 32 |
| | OWW | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Erlyniadau llwyddiannus | 0 | 0 | 0 | 5 |
| **Gorfodi'r drefn Trwyddedu Morol** | Trwyddedau Morol gweithredol | 95 | 88 | 85 | 82 |
| | % o Drwyddedau Morol Wedi'u Harchwilio | 2 | 1 | 0 | 1 |
| | Torri rheolau | 2 | 0 | 0 | 0 |
| | Ymchwiliadau byw | 2 | 1 | 1 | 1 |

# Volvo Ocean Race

## Cardiff Stopover May 2018



**<u>Diweddariad Ras Cefnfor Volvo:</u>**

Mae Ras Cefnfor Volvo yn ras epig o amgylch y byd, gan ymweld â 12 dinas a chyffwrdd â chwe chyfandir. Cychwynnodd y fflyd o Alicante, Sbaen ym mis Hydref ac, am y tro cyntaf yn ei hanes, bydd y ras yn stopio yng Nghaerdydd, Cymru rhwng 27 Mai a 10 Mehefin 2018.

Bydd yr hwylwyr yn gadael Newport, Rhode Island, U.D.A ar Fai 20 ar gyfer cymal trawsatlantaidd y ras ac yn teithio tua 2,900 o filltiroedd môr nes cyrraedd Caerdydd. Yn draddodiadol, mae'r cymal trawsatlantaidd yn un o uchafbwyntiau mwyaf a heriau caletaf y ras naw mis i'r hwylwyr, mewn amodau anodd yn aml. Dywedodd Antonio Bolaños López, Prif Weithredwr Dros Dro Ras Cefnfor Volvo: "Mae'r ras drawsatlantaidd yma rhwng Newport a Chaerdydd yn addo bod yn un o wir uchafbwyntiau Ras Cefnfor Volvo 2017-18.




Bydd safle gŵyl Ras Cefnfor Volvo, sef Pentref y Ras, wedi'i leoli ar Forglawdd Bae Caerdydd. Bydd y digwyddiad am ddim yn para am bythefnos ac yn cynnal adloniant amrywiol ac atyniadau ar thema Ras Cefnfor Volvo.

**Ras Cefnfor Volvo a Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol**

Ers gwneud cyflwyniad i Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol ar RCV yn ôl ym mis Tachwedd, rydym wedi bod yn gweithio ar draws Llywodraeth Cymru a sefydliadau partner i weithio gyda pherchnogion digwyddiadau yn ystod y paratoadau parhaus ar gyfer RCV – cymal Caerdydd, yn enwedig mewn perthynas â thema gyffredinol cynaliadwyedd ac, yn benodol, yr ymgyrch yn erbyn plastig mewn cefnforoedd/gwastraff morol – gan weithredu mewn partneriaeth ag ymgyrch Moroedd Glân Amgylchedd y CU. Mae'r meysydd gweithgarwch penodol yn cynnwys y canlynol:

- **Uwchgynhadledd y Cefnforoedd – Dydd Mawrth 5 Mehefin, Pafiliwn Cymru, Pentref y Ras**

Trefnir Uwchgynhadledd y Cefnforoedd gan Ras Cefnfor Volvo ac mae'n dod â'r byd chwaraeon, gwyddoniaeth, y llywodraeth, sefydliadau anllywodraethol a'r sector preifat at ei gilydd. Y nod yw creu trafodaeth a pherthnasedd lleol. Rhaid cael gwahoddiad i fynychu'r Uwchgynhadledd a bydd cynadleddwyr rhyngwladol ar lefel uchel yn bresennol. Prif ddiben yr Uwchgynhadledd fydd sicrhau ymrwymiad y llywodraeth a diwydiant i greu moroedd glân ar gyfer y dyfodol.

Mae Agenda'r Uwchgynhadledd a Rhestr y Siaradwyr yn cael eu llunio'n derfynol ar hyn o bryd ond mae'r sesiynau'n debygol o ganolbwyntio ar y canlynol:

- Prif Anerchiad – Llywodraeth Cymru;
- Gosod y naws, gwyddoniaeth llygredd plastig;
- Economi gylchol: Yr ateb;
- Datrysiadau o'r sector preifat ar hyd y gadwyn gwerth plastig, ac;
- Arloesi Cynaliadwy mewn Chwaraeon.

- **Diwrnod Eco Ysgolion – Dydd Mercher 6 Mehefin, Pabell Fawr Syrcas No Fit State, Pentref y Ras:**

'Eco-Schools' yw'r rhaglen ysgolion cynaliadwy fwyaf yn y byd ac mae'n cael ei gweithredu gan y Foundation for Environmental Education (FEE). Mae'n cael ei chyllido yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru a'i gweithredu gan sefydliad Cadwch Gymru'n Daclus. Mae Diwrnod Eco-Ysgolion Blynyddol 2018 yn cael ei gydlynu gan Cadwch Gymru'n Daclus a bydd yn cael ei gynnal yn RCV.

Bydd y digwyddiad addysg undydd yma'n denu 350 o blant ysgol o ysgolion ledled Cymru i gymryd rhan mewn rhaglen o weithdai a thrafodaethau amgylcheddol. Hefyd mae cysylltiadau rhyngwladol ag ysgolion yn Rhode Island wedi'u sefydlu i gymryd rhan yn y gynhadledd. Mae mwy o wybodaeth ar gael gan: pam.bacon@keepwalestidy.cymru

- **Gweithdai Addysg**

**Wythnos 1: 27ain Mai – 3ydd Mehefin.**

Bydd rhaglen o ddarlithoedd/gweithdai 30 munud yn cael ei chynnal yn ddyddiol yn y babell addysg ym Mhentref y Ras, rhwng 11:00 a 18:00, gyda Phrifysgol Caerdydd a'r Acwariwm Morol Cenedlaethol yn darparu cynnwys a thrafodaethau parhaus gyda thîm Addysg RCV, Sky Ocean Rescue, y Gymdeithas Cadwraeth Forol a Dŵr Cymru.

Hefyd bydd yr Acwariwm Morol Cenedlaethol a Phrifysgol Caerdydd yn darparu addysg ‘bysgio’ a sesiynau gwyddoniaeth bocs sebon ym Mhentref y Ras.

**Wythnos 2: 4ydd Mehefin – 10fed Mehefin.**

Mae cyfleoedd ar gyfer ymweliadau gan ysgolion wedi cael eu hybu drwy gyfrwng bas data partneriaid addysg a’r Cyngor. Bydd dwy raglen yn cael eu cynnal yn ddyddiol i Ysgolion Cynradd ac Uwchradd a bydd y rhaglenni’n cynnwys y canlynol:

- Sinema’r Byd _ Grwpiau ysgol yn cyfarfod yn sinema’r byd ac yn gweld ffilm o’r ras cyn dechrau cylchdroi.
- Addysg Volvo – Rhaglen addysg gynaliadwy Ras Cefnfor Volvo.
- Pafiliwn Volvo – Arddangosfa a deciau cynnyrch. Samplau, straeon, ffilmiau ac ati gan holl frandiau Volvo, gan gynnwys Ceir Volvo, Penta Volvo, Tryciau Volvo, Offer Adeiladu Volvo a Bysus Volvo.
- Yr Acwariwm Morol Cenedlaethol – Bydd Tîm Addysg yr Acwariwm Morol Cenedlaethol yn cynnal gweithdy arbenigol i alluogi myfyrwyr i ddeall y ffiseg a’r ddaearyddiaeth sy’n sail i hwylio ar draws y cefnfor. Gan ddefnyddio Morwyr Gyda’r Gwynt (*By-The-Wind Sailors*) brodorol fel esiampl, bydd y myfyrwyr yn ymchwilio i sut mae anatomeg slefren fôr yn debyg i gwch hwylio a sut mae’r ddau’n defnyddio gwynt a cherrynt i deithio ar draws y cefnfor a goroesi ynddo.
- Gan wneud eu Morwr Gyda’r Gwynt eu hunain, byddant yn ymchwilio i effaith cerrynt y môr a’r gwyntoedd cryfaf drwy symud eu slefren fôr o amgylch map tanddwr o’r cefnfor. Gan ddilyn llwybr fflyd Ras Cefnfor Volvo, bydd eu slefren fôr yn profi’r anawsterau a’r heriau mae cystadleuwyr y Ras yn eu hwynebu, yn ogystal â sicrhau gwell dealltwriaeth o ganlyniadau ecolegol cefnfor rhyng-gysylltiedig, sef dosbarthiad plastigau yn ein moroedd a sut gallwn ni gydweithio i leihau’r broblem amgylcheddol hon.
- Y Gymdeithas Cadwraeth Forol – sesiwn ar yr Her Plastigau ac eitemau sy’n cael eu rhoi i lawr y toiled ond y dylid eu rhoi yn y bin, fel ffyn cotwm.
- Airbus – Gweithredu realiti rhithiol.
- Taith Pentref y Ras – Taith dywys o amgylch yr asedau eraill ym mhentref y ras; canolfannau’r timau, yr iard gychod, trawsdoriad o gwch ac ati.

Gweithdai Addysg – rhai slotiau eto i’w llenwi felly os oes gan aelodau o sefydliadau Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol ddiddordeb, cysylltwch â: Simon Allen, Cyngor Caerdydd: SiAllen@cardiff.gov.uk

- **Partneriaeth Moroedd Glân Cymru**

Mae tîm Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda Phartneriaeth MGC gan feithrin cysylltiadau â Rhaglen Moroedd Glân y CU a helpu i gydlynu gweithgarwch yn nigwyddiad RCV.

Rydym yn gweithio gyda Chyngor Caerdydd, partner darparu swyddogol RCV, i ddatblygu ardal Moroedd Glân Cymru ddynodedig ar y safle, dylanwadu ar agenda Uwchgynhadledd y Cefnfor a sicrhau bod negeseuon allweddol MGC yn cael eu cynnwys yn y digwyddiad ac, os yw hynny’n bosib, nad yw plastigau defnydd sengl yn cael eu defnyddio ar y safle.

**Eisiau cymryd rhan?**

Mae Ras Cefnfor Volvo'n chwilio am wirfoddolwyr i helpu yn y digwyddiad mewn sawl rôl. Os oes gennych chi brofiad o wirfoddoli mewn digwyddiadau, neu os hoffech gael profiad o'r fath, ewch i wefan **'Hwb Chwaraeon Caerdydd'** i gael mwy o wybodaeth am y cyfleoedd sydd ar gael.

Am fwy o wybodaeth am y digwyddiad, edrychwch ar wefan Ras Cefnfor Volvo Caerdydd

Presenoldeb yn y Digwyddiad: Mynegi Diddordeb – presenoldeb ym Mhentref y Ras: https://www.volvooceanracecardiff.com/contact/

**Tara Croxton / tara.croxton@gov.wales**

**Uned Digwyddiadau Mawr, Llywodraeth Cymru**

## Croeso Cymru: Blwyddyn y Môr

Hoffai Croeso Cymru fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r grŵp gan eu bod yn ddiolchgar iawn am y syniadau a gafwyd o'r gweithdy yng nghyfarfod Tachwedd 17 o'r Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol.

Mae Croeso Cymru wedi derbyn ceisiadau refeniw niferus i'w gynllun cyllido yn awr y bydd gan y grŵp ddiddordeb cael gwybod amdanynt, os byddant yn llwyddiannus, ond nid ydynt wedi mynd ger bron y panel eto.

Mae Claire Carew yn gweithio'n agos â sefydliad Cadwch Gymru'n Daclus ar y Bartneriaeth Moroedd Glân ac mae Croeso Cymru'n chwarae rhan lawn â hwy i ddathlu pen blwydd y Faner Las yng Nghymru yn 30 oed.

Hefyd mae Claire yn ymwneud ag RSPB Cymru ac eisiau eu helpu i hyrwyddo dathlu 25 mlynedd ers dod yn berchnogion ar Ynys Dewi.

O ran gweithgarwch cyffredinol Blwyddyn y Môr, mae Croeso Cymru'n ehangu ymgyrchoedd ar hyn o bryd.

Fel y nodwyd uchod, mae Claire yn gweithio'n agos ar yr holl faterion sy'n gysylltiedig â phlastigau morol ac un o'r rhain yw ystyried sut i leihau nifer y poteli dŵr plastig. Hefyd mae Croeso Cymru'n hyrwyddo'r sesiynau clirio traethau niferus sy'n cael eu trefnu gan Cadwch Gymru'n Daclus a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Yr unig newyddion arall yw bod llysgenhadon Blwyddyn y Môr wedi cael eu cadarnhau. Nid ydych yn debygol o'u hadnabod am nad yw eu proffil yn ddigon uchel i'r cyhoedd, ond maent yn llysgenhadon credadwy iawn ac yn angerddol i gyd am y môr a Chymru. Hefyd maent yn angerddol iawn am amgylchedd y môr. Ceir manylion am y llysgenhadon drwy ddilyn y ddolen hon http://www.visitwales.com/sea/sea-ambassadors

**Claire Carew: Croeso Cymru**

**Y Gymdeithas Iotio Frenhinol (RYA), RYA Cymru a 'The Green Blue'**



Mae hwylwraig ym Mhencampwriaethau Ieuenctid y Byd, Hatty Morsley, wedi cael ei choroni'n Bencampwraig Ieuenctid Ranbarthol yr RYA ar gyfer Cymru. Newidiodd y ferch ifanc 18 oed o Ogledd Cymru i lefel hŷn yn nosbarth cychod 470 ac mae'n gobeithio dilyn yn ôl troed yr enillydd medal aur Olympaidd o Gymru, Hannah Mills – ac mae hyd yn oed yn hwylio un o'i hen gychod. Derbyniodd yr holl enillwyr rhanbarthol dlws yn Sioe Dingis yr RYA yn 2018 gan yr Olympiad yn Rio, Dylan Fletcher. Thema'r sioe eleni oedd #hwyliodingiamoes, gan ddathlu oes o chwaraeon i bawb.



Mae menter amgylcheddol ar y cyd yr RYA a British Marine, 'The Green Blue', wedi datgelu mai Clwb Hwylio Prifysgol Manceinion yw enillydd cyffredinol Her Cynaliadwyedd Hwylio'r Prifysgolion 2017-18. Ar ôl chwe mis o gystadlu brwd, cafodd y myfyrwyr llwyddiannus eu gwobr ar brif lwyfan Sioe Dingis yr RYA. Daeth Clwb Hwylio Prifysgol Aberdeen yn ail gyda Dyfarniad Arian a gwobr o £250 ac yn y trydydd safle roedd Clwb Hwylio Prifysgol Abertawe, yn ennill Dyfarniad Efydd a gwobr o £100.



Bydd Wythnos y Rhywogaethau Ymledol yn ôl rhwng 23 a 29 Mawrth 2018. Drwy gydol yr wythnos, bydd yr RYA yn ymuno â The Green Blue i ganolbwyntio ar wahanol themâu bob dydd – a gallwch chi ymuno drwy ddilyn @CheckCleanDryGB neu chwilio am #InvasivesWeek #WythnosRhywogaethauYmledol. Lansiodd Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr a Defra yr Wythnos Rhywogaethau Ymledol gyntaf yn 2015, gan ddod ag amrywiaeth o sefydliadau at ei gilydd i godi ymwybyddiaeth o rywogaethau estron ymledol ac i ysbrydoli pobl i #GetINNSvolved ac atal y lledaenu.



Mae RYA Cymru Wales wedi ennill dyfarniad efydd Insport i gyrff rheoil am eu gwaith ar wneud y gamp yn fwy cynhwysol ar gyfer pobl ag anableddau. Mae'r dyfarniad yn arwydd o ddiolch am weithio gyda phobl ag anableddau i'w denu i hwylio a gwneud y gamp yn fwy cynhwysol, gan gynnwys cynllun Sailability. Derbyniodd Prif Weithredwr RYA Cymru Wales Phil Braden y dyfarniad ar ran Chwaraeon Anabledd Cymru gan eu Prif Weithredwr Fiona Reid.

RYA | THE GREEN BLUE – MAKING THE ENVIRONMENT SECOND NATURE | RYA BRITISH MARINE A joint environment initiative

**CHERISH**

Mae gwaith maes CHERISH ar droed ar y safleoedd arfordirol tiriogaethol gyda rhaglen waith yn ystod y misoedd sydd i ddod – i gynnwys: Castellmartin, Ynys Enlli, Ynys Dewi ac Ynys Seiriol. Bydd ymweliadau ag Ynysoedd y Moelrhoniaid, Gwales a Skomer yn nes ymlaen yn ystod y flwyddyn. Bydd timau o’r Comisiwn Brenhinol a Phrifysgol Aberystwyth yn ymweld â’r safleoedd gyda’i gilydd er mwyn cael cymaint o ddata â phosib.

Bydd gwaith arolygu o’r awyr yn parhau yn ystod y flwyddyn sydd i ddod i gofnodi’r arfordir i ychwanegu at y data a gasglwyd y llynedd a bydd drôn CHERISH (gweithredwr CHERISH wedi’i drwyddedu gan y CAA) yn cael ei ddefnyddio i dynnu lluniau ychwanegol mewn safleoedd allweddol yn awr.

Mae’r wefan yn gwbl weithredol – y safle Cymraeg ar gael o ddiwedd mis Mai ymlaen. Mae’r safle’n cynnwys map rhyngweithiol o’r safleoedd arfordirol a diffiniad cliriach o’r ardaloedd i’w harolygu.

Bydd arolygu morol yn dechrau yn ystod tymor yr arolwg ar gyfer 2018. Geological Survey of Ireland fydd yn gwneud y gwaith a chan ddibynnu ar y tywydd, bydd yn ymweld â’r safleoedd yng Nghymru. Bydd y cwch yn arolygu’r ardaloedd y mae’r tywydd yn caniatáu ymweld â hwy a bydd yn ceisio arolygu cymaint o’r ardal â phosib, a all hefyd gynnwys creigiau *Smalls* a Gwales. Mae ardaloedd ychwanegol wedi’u nodi ond gan fod yr amser sydd ar gael yn brin, y rhai a restrir isod sydd i gael blaenoriaeth. Mae CNC wedi cymeradwyo’r dull o weithredu yn yr Ardaloedd Morol Gwarchodedig (bydd GSI yn defnyddio’r dull o weithredu yn ACAoedd Iwerddon ac mae holl aelodau’r criw wedi’u hyfforddi fel Arsylwyr Mamaliaid y Môr).

Y Moelrhoniaid
Tŷ Croes i Ddinas Dinlle
Sant Tudwal ac Abersoch
Sarn Padrig
Ynys Aberteifi
Ynys Dewi a’r Clercod
Solfach a’r Graith Werdd
Skomer a Marloes

Mae digwyddiadau wedi cael eu trefnu i gynnwys Seminar Broffesiynol am ddim CHERISH ar 17eg Mai yn Llandudno yn trafod Newid yn yr Hinsawdd a Threftadaeth Arfordirol – edrychwch ar wefan Eventbrite am ragor o fanylion: https://www.eventbrite.co.uk/e/seminar-proffesiynol-cherish-professional-seminar-tickets-42562996067

Hefyd bydd Ysgol Ddydd Gyhoeddus am ddim gan CHERISH yn cael ei chynnal yn Aberystwyth ddydd Sadwrn 6 Hydref – bydd mwy o fanylion ar gael ar wefan CHERISH: www.cherishproject.eu a hefyd bydd prosiect CHERISH yn y bandstand yn Aberystwyth ar gyfer Diwrnod Ewrop 9fed Mai

Mae presenoldeb gweithredol o hyd ar gyfryngau cymdeithasol a gallwch ein dilyn ni ar Facebook – Prosiect CHERISH a twitter @CHERISHproj. Rydym wedi creu cylchlythyr sydd ar gael ar y wefan yn y Gymraeg ac yn Saesneg. http://www.cherishproject.eu/en/resources/publications/newsletter

Clare Burgess: **Rheolwr Prosiect CHERISH – prosiect a gyllidir yn Ewropeaidd**